Cyfres Llanbedr | Mawrth, 1931. | Cyf. 31. Rhif 3.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Hen Gynulleidfaoedd—
Y Betws.
Y Parch. David Evans.
Hanes Iesu i Blant.
Y Botwm.
Pennod o Shiprys.
Priodas.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD *UNDODAIDD*

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen ; Golygydd 'Yr Ymofynnydd').

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. MAWRTH, 1931. Cyf. XXXI. Rhif 3.

Hanes Hen Gynulleidfaoedd Undodaidd.

Y BETWS.

DRO ar ôl tro clywais enwi'r Betws a Phenbont ar Ogwr gan y diweddar Hybarch R. Cribin Jones. Nid wyf yn sicr na lechai peth serch at y ddwy gynulleidfa fach yn ei galon i'r diwedd, a dyna esbonia ond odid enw ei dŷ " Ogmore House ". Er iddo ddarlunio'r Betws imi droion nid erys ond darlun digon niwlog o dŷ bach un llawr â drws a ffenestr yn y ffrynt a hwnnw ers llawer dydd yn gydwastad â'r llawr. Er anghofio'r pictiwr a roes i mi ohono cofiaf yn burion ddarlun arall—darlun o Mr. Jones yn cerdded i'r Betws i bregethu i gynulleidfa o bedwar. Yr oedd un o'r pedwar yn ganwr a'i lais mor grâs ac aflafar a llais asyn nes byddaru pawb, ac eto awgrymai Mr. Jones mai'r canwr ac nid y pregethwr oedd y *draw* ym Metws y dyddiau hynny. Pan beidiodd y canu darfu'r achos ond odid. O'r hyn leiaf niwlog yw hanes y gynulleidfa fach—un o'r cynulleidfaoedd hynaf yng Nghymru. Rhagor na hynyna, er fod Betws yn enw digon cyfarwydd ymhob cwr o Gymru, ni chredaf fod odid neb yn sicr o'i ystyr. Ni wn i mohono o leiaf. Cynhygir llawer esboniad ond tystia amlder esboniadau am yr anwybodaeth o wir ystyr y gair. Mynn un ei ddyfod o'r un gair ag ysbyty, arall o ' beatus ' gwynfydedig : taera arall fod a fynno'r gair â ' bedw ' ac arall a ' bead-house ' tŷ pader lle gweddiid am enaid y gŵr a sefydlasai yr Eglwys gerllaw. Nid yw o bwys ond er dangos ein hanwybodaeth o dermau cyffredin, dyna i gyd.

Y mae'n ddiddorol ceisio esbonio troion yr yrfa ym Metws. A yn ôl i gyfnod bore a chawn orfoleddu yn nhymor y werin lywodraeth, a wyth o'r Profwyr, pump yn weinidogion sefydledig, yn arwyddo tystysgrif Samuel Jones (Brynllywarch wedi hyn) ar ei ddyfod o Taunton gwlad yr haf i Langynwyd ym mro Morgannwg yn 1657 ond odid.

Ni fu yma'n hir oherwydd gorfu iddo ymadael yn 1662 ond ar waethaf Deddf y Pum Milltir y mae'n amheus a aeth ymhell oherwydd ceir iddo gael trwydded i nifer o fannau yn y fro yn 1672 megis Cideudy, Goitrehen, Llangynwyd a Margam o leiaf. Ymddengys fod yr awdurdodau'n ei ddrwgdybio'n gynnar o bregethu yng Nghildeudy ac ar y 4 o Awst 1684 ceir gwarant i chwilio am Samuel Jones, Stephen Hughes ac eraill am na fynychent yr Eglwys. Ni wn a ddaeth dim o'r warant. Gydag amser ciliodd yr erlid ac wedi 1689 daeth tro ar fyd, a chafodd Samuel Jones bregethu ym Mrynllywarch a Childeudy hyd ei farw. Tŷ fferm (farm-building) ydoedd Cildeudy yng ngwaelod plwyf Llangynwyd ac wedi'i ddefnyddio fel 'tŷ cwrdd' neu 'gonfenticl' o 1669 o leiaf. Wedi marw Samuel Jones yn 1697 digon tebig mai Cildeudy oedd yr unig Dŷ Cwrdd anghydffurfiol yn yr ardal. Dilynwyd Mr. Jones fel gweinidog ac ysgolfeistr gan Mr. Rees Price, Tŷ'nton. Nid oes gofnod pryd y cefnwyd ar Gildeudy ond yr oedd pregethu yma tua 1715.

Ryw amser wedi hyn, ymhen rhyw ddwy flynedd hwyrach yr oedd cynulleidfa'r fro mor lluosog fel y'i rhannwyd yn ddwy. Ymsefydlodd un rhan ohoni ym Metws a'r llall ym Mhenybont ar Ogwr (Bridgend) a dyma dechreu'r achos yn y Betws rywbryd tua 1717. Codwyd capel bychan yma ond llwybr garw a digon tymhestlog a fu llwybr y gynulleidfa yn ei chartref newydd. Shiprys ydoedd y gynulleidfa a daeth syniadau newydd gyda threigl amser gan rannu a gwanhau'r gynulleidfa fel pob cynulleidfa Bresbyteraidd ond odid yng Nghymru.

Ofer amau nad oedd Calfiniaeth wedi lliwio meddwl y gynulleidfa ac erbyn 1763 teimlid fod hadau ymraniad yn yr eglwys. Dyma'r adeg yr ymadawodd y Parch. Lewis Jones ac y rhowd galwad i'r Parch. Thomas Morgan, Henllan (y pryd hwnnw o Delf). Ni dderbyniodd mohoni ond nid oedd Morgan mor uniongred ag y tybir oherwydd yn ei ddyddiadur ceir ei farn ar Ragarfaeth yn 1766,—

'I have always tho't it my duty to offer a free salvation to all sinners, and to assure 'em yt none of 'em are excluded but such as exclude themselves by rejecting Jesus Christ and yt I

cannot at all believe if God made men purposely to damn 'em for ever, and yt I can't think any mere man capable of it was it in his power ; and surely God exceeds every man in benevolence etc.'

Y mae hynyna'n awgrymu fod y gynulleidfa'n dechreu ymysgwyd oni roddai alwad i Morgan a'i llygad ynghau. Yn 1765 daeth y Parch. Evan Williams o Lanuwchlyn yma ac y mae yntau dan yr un cwmwl. Wedi iddo dderbyn galwad i hen bulpud Daniel Gronw yn y Bala ymhen rhyw 14 mlynedd y cyntaf a wahoddwyd i lanw ei le ydoedd yr Ariad, y Parch. Arthur Lloyd, Pudsey. Ni dderbyniodd yntau mohoni ac yr oedd y gynulleidfa yn ferw drwyddi ac yn rhanedig.

Ysgrifenna Morgan Thomas, Gwernygerwn at ei frawd Thomas Morgan yn Chwefror (1763 ?)—

' Give my service to Mr. Lloyd . . . and tell him that they are there (at Bridgend) so far in sitle (unsettled) on their pastor as they was when he was there.'

Yn 1783 derbyniodd y Parch. Samuel Price alwad i'r Betws ond ni unwyd mo'r pleidiau oherwydd yn 1790 ceir rhwyg a nifer yn ymadael ac yn ffurfio Eglwys Annibynnol Bethesda. Ymhen blynyddoedd bu yna ragor o rwyg a dywedir yn Yr Ymofynnydd Hydref 1893,—' Ni fu llewyrch ar yr achos ym Mhenybont a'r Betws wedi'r ymraniad yn 1806. Ychydig oeddynt wedi aros dan nawdd ac arweiniad Mr. Coffin mewn meddiant o'r Capeli a'r gwaddol a gyfrifid o leiaf yn Arminaidd '.

Yn adeg yr anesmwytho hwn yr unig ymddiriedolwr ydoedd Walter Coffin tad Walter Coffin, A.S. dros Gaerdydd (1852—1857) ; a dylanwadodd y mab ar y tad i wthio diwinyddiaeth ryddfrydig ar gynulleidfa amharod ac anfodlon. Dyma ddywedir o leiaf, ond fe ddwed yr ymrannu a'r rhwygo a'r ymadael stori arall oherwydd y ceidwadwyr mewn diwinyddiaeth a ai allan bob tro. Beth bynnag nid oedd rhyw frwdfrydedd mawr dros Undodiaeth yma fel y teimlodd y Parch. John James. Nid yw hynyna yn dangos dim, serch hynny, oherwydd y mae'n amheus a fuasai John James yr adeg hon yn dderbyniol gan gynulleidfaoedd Ariaidd Aberteifi y sydd erbyn heddiw bob yr un yn Undodaidd. Y mae'n werth rhoi darn o Lythyr Walter Coffin er gweld sut y bu parthed y Capeli a'r waddol. O'i gael yn ei eiriau ei hun (wedi'u trosi i'r Gymraeg) fe welwn y sefyllfa :—

PENYBONT AR OGWR,

Ionawr 27, 1816.

BARCHEDIG SYR.

* * Ond gan fod yr awdurdod yn ol y Trust Deeds yn llaw yr ymddiriedolwyr i roi'r tai cyrddau i unrhyw blaid o Gristionogion a farnwn sydd orau ynghyd a'r eiddo perthynol iddynt—yn meddwl hefyd ei bod o'r pwys mwyaf i'r hyn a gredwn yw achos y gwirionedd i gael un tŷ addoliad yn y rhanbarth hwn o'r wlad—agored i weinidogion o olygiadau rhydd a rhesymol * * *

. fy nghred yw y byddai'r ymddiriedolwyr i'w beio am wneuthur gormod o aberth i gyfeiliornadau'r bobl hyn trwy beidio dal ar yr unig gyfleustra tebig o ddigwydd i sefydlu Eglwys Undodaidd yn y dref hon.

* * Yr wyf yn gobeithio y caf glywed oddiwrthych cyn gynted ag y gwnewch eich meddwl i fyny, etc.'

Derbyniodd John James yr alwad a bu yma o Fai 26, 1816 hyd Fai 26, 1818, gan bregethu'n achlysurol hyd Dachwedd 22, 1818. Ymhen rhyw dair blynedd, daeth y Parch. J. E. Jones yma a bu yma am dros ddeugain mlynedd.

Yn hanes Taith Genhadol Wright ceir yn 1816 y ddau nodyn hyn,—

'BRIDGEND. A good meeting house but the congregation has long been in a low state. Mr. James has lately undertaken to try what can be done to revive it. He preaches here one Sunday in the fortnight and Mr. Evan Lloyd supplies the other Sunday. In this congregation there is a respectable family who are relatives of that truly excellent man—the late Dr. Price.'

'BETTWS. I preached here to a congregation which was said to be much larger than what usually attends.'

Ni bu yma neb yn aros yn hir tan ddyfod y Parch. William Parry yma ond oherwydd anghydfod ac ymgyfreithio gwanychodd yr achos ym Mhenybont ar Ogwr. Ni wn i pryd y cauwyd y Betws ond y mae'n bwll ers blynyddoedd, a'r gynulleidfa wedi marw allan heb adael maen ond odid i ddweyd wrth neb am hanes y Betws a Childeudy.

RHESTR O WEINIDOGION Y BETWS.

CILDEUDY.

Samuel Jones, M.A.	(1662)—1697
Rees Price	1697—(1717)

BETWS:

Rees Price	(1717)—1739
Lewis Jones	(1740)—1763.
Evan Williams	1766—1780
Samuel Price	1783—1806
William Rees	1808—1814
John James	1816—1818
John Edward Jones	1821—1866
Jenkyn Williams	1867—1868
Rees Cribin Jones	1868—1871
David Lewis Evans (supply)	1871—1874
Titus Lloyd	1875—1878

Ni chredaf fod pregethu yn y Betws wedi'r amser hwn. Gwn fod y Parch. Rees Cribin Jones yno yn 1871 ond digon tebig yn ôl ei adroddiad ef fod yr achos yn gwywo. Yn 1880 derbyniodd y Parch. William Parry alwad i'r Nottais a Phenybont ar Ogwr heb sôn am y Betws fel y gellir bod yn weddol sicr i'r gynulleidfa ddiffodd rhwng mynd o Rees Cribin Jones a dyfod William Parry yma. Nid oedd yma ond *un* Undodwr ym Metws yn amser Titus Lloyd.

O.

Y Parch. David Evans.

DIDDOROL ysgrifennu'n onest hanes dyn yn ei fyw heb geisio'i bardduo na'i seboni, a gwybod ar yr un pryd y bydd i'r dyn ei hun ei ddarllain ; oni rydd i fyny ar hanner o gael gwybod gormod o wir amdano ef ei hun. Bu Mr. Evans yn cywiro fy nghamsyniadau yn yr ysgol 'slawer dydd. Caiff wneud heddiw eto a chroeso. Y mae'n rhywbeth i ddyn gael gwybod y da a'r drwg amdano'i hun yn ei fyw, er ei adeiladaeth onid yw'n rhy ddiweddar. Llawenhâ y darllenwyr gyda mi nad oes raid gosod—*y diweddar*—o'i flaen ; y mae mor unionsyth a saeth, yr ieuengaf ohonom i gyd. Awgrymid fod yna fachgen yn eglwys Aberduar unwaith a dybiai ei hun yn rhywun oherwydd fod Williams y

gweinidog yn hoff o alw arno i ddarllain pennod. Un noson ni cherddai adref gyda'r bechgyn eraill, ond oedodd er cael cydgerdded a Williams gan ofyn iddo,—

'Paham, Mr. Williams, y gelwch arnaf i yn amlach na neb arall?'

'O mi ddwedaf wrthych,' meddai'r hen weinidog o weld ei fod yn prifio gormod. 'Fe sylwoch ar eich mam yn gwneud canhwyllau. Y mae'n dippio y canhwyllau meinaf yn amlach na'r lleill.'

Nid oedd raid i'r hen weinidog y nos honno o leiaf egluro'r ddameg. Nid awgrymaf mai cannwyll fain yn yr ystyr yna mo Mr. Evans ond o weld ei gorff lluniaidd, talsyth, credaf y medrai yntau'n gorfforol fod wedi cael dau neu dri *dip extra* er ei fantais.

Ni fwriadaf i adrodd hanes ei fywyd. Ni fedraf. Yr oedd wedi'i ordeinio'n weinidog yn y Cribin flynyddoedd cyn fy ngeni i, ac o gofio hyn ac edrych ar Mr. Evans ni fedrai neb ddweyd fy mod yn hên. O edrych arnaf i byddai'r stori'n wahanol hwyrach.

Dywedir ei eni ar yr 11 o Chwefror 1860 ym Modawel plwyf Llanwnen ond nid oes gennyf i nac yntau ond tystiolaeth ail-law—hearsay—ar y cwestiwn. Digon tebig ei fod yn wir. Mab ydyw i'r diweddar Benjamin a Maria Evans. Cychwynnodd ar ei fywyd fel llawer o'i flaen ac ar ei ôl i gyfeiriad arall. Meddyliodd y gwnae ffortiwn wrth werthu calico a brethyn. Ni wn a gafodd weledigaeth fel Paul ar y ffordd i Ddamascus, ond medr yr enwad ddiolch i Dduw am iddo gyffwrdd a'i galon. Ni ddywedaf na wnai siopwr llwyddiannus er yr amheuaf hynny'n fawr. Y mae'n amheus gennyf a fedrai ei dweyd hi'n ddigon da i fod yn siopwr. Cred ef ei hun i Ddewi Hefin amddifadu Cymru o gerddor gwych, nid ail i Ben Davies y tenor enwog, drwy iddo ei rwystro ef a thri arall i gystadlu a gwefreiddio'r dorf yn Rhydygwin. Colled y gân ydoedd ennill y pulpud a cholled Cymru ydoedd ennill Cribin a Chapel-ygroes. Dyna fel y caraf i edrych ar y peth o leiaf. Ni wn i faint o gerddor yw ond y mae'n fwy na mi. Dwed rhywun na ŵyr nad yw hynyna ond clod amheus. Digon gwir. Fe ddywedid i'r diweddar Barch. W. J. Davies gyfarfod a'r Hybarch T. T. yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn y Llwyn a gofyn iddo p'un a oedd yn well ganddo—yr Hen Nodiant neu'r Tonic Solffa. Ni phetrusodd T.T. ond dywedodd fod y naill a'r llall fel ei gilydd iddo.

Nid atebodd Davies ddim ond wrth alw yn rhywle canmolai wybodaeth gerddorol T.T. Ymhen tipyn chwarddodd gwraig y tŷ a gofynnodd iddo pwy oedd wedi dweyd wrtho.

'O' meddai Davies 'does dim gwahaniaeth ganddo rhwng yr Hen Nodiant a'r Tonic Solffa'.

'Debig iawn,' oedd ateb y wraig. 'Ni wyr y naill na'r llall.'

Cyn y byddo neb yn canmol Mr. Evans oddiwrth fy nhystiolaeth i iddo, cofied nad oes wahaniaeth gennyf innau rhwng yr Hen Nodiant a'r Tonic Solffa—cerddor o dype T.T. ydwyf.

Beth bynnag am hyn, wedi iddo ymadael a Dewi Hefin a pheidio canu fe'i paratowyd i'r Coleg gan y Parch. William James, B.A. a bu yng Nghaerfyrddin o 1882 i 1886 gan ddychwelyd i ofalu am Eglwys y Cribin. Ni chredaf fod ffortiwn i weinidog yn y Cribin rhagor rhyw eglwys wledig arall, a gorfu i'r gweinidog ifanc wneud rhywbeth heblaw pregethu, ac agorodd ysgol yn Llanybyther, Llanbedr a'r Cribin yn eu tro.

Gwnaeth y gweinidogion Undodaidd fwy nag odid neb i gynneu cannwyll dysg yn y wlad yn y dyddiau a aeth heibio, a charaf i feddwl am Evans fel yr olaf o'r hen ysgolfeistri, 'The Last of the Barons'. Medrid dweyd llawer amdano fel ysgolfeistr ond digon dywedyd ei fod yn paratoi disgyblion gogyfer ag arholiadau prif-ysgolion Cymru, Rhydychen a Manceinion, a hynny yn single-handed. Ni chredaf y ceid neb heddiw i wneud hynyna.

Maentumia'r hen ddisgyblion na weithiasant ond dano ef. Tystia y Parch. Arthur Thomas, hen ddisgybl, na welodd neb yn fwy cydwybodol nag ef, ac er dangos hyn cofia dro trwstan. Yr oedd Cymanfa Ganu'r Undodiaid yn Abertawe ac Evans a'r Senior Students y Parchn. Arthur Thomas a Gwilym Evans yn mynd yno. Yr oedd yn hwyr cyn cyrraedd adref i Lanybyther ac yr oedd gan y meistr bedair milltir o leiaf i gerdded adref. Bu ar lawr drwy'r nos yn paratoi gogyfer a drannoeth ond fore trannoeth ni throes y Senior Students i fyny. Pan ddaethant i'r Ysgol yn y prynhawn bu agos iddynt gael eu hanfon adref *for good*. Y mae'n hawdd gennyf gredu fod y digwyddiad yn wir.

Bum i rywbryd neu gilydd dan lawer athro ond ni welais i ei hafal am gadw disgyblaeth. O'i gyfarfod ar yr heol yr oedd rhyw wên serchus ar ei wyneb ond ar y drydedd step o'r stâr garreg a arweiniai i fyny i'r Ysgoldy croesai fynydd y gweddnewidiad. Nid oedd yn eistedd wrth y ford ond gwr llym yr olwg, yn curo rhyw ddwywaith a bôn y *lead* cul hwnnw ar y ford, a beth oedd hynny, a chwithau yn gwrando'n astud ar stori ddiddorol. Pwy ddisgwyl oedd arnom ei glywed ond look out oni wrandawem. Gŵyr y neb a edwyn Mr. Evans am y pesychu byr yn y gwddf, ac yr own wedi ei glywed yn pregethu heb dybio fel plentyn fod rhagor nag un math ar hyawdledd. Yn yr ysgol gwelais fy ngham-

syniad. O'i gyffroi collai y pesychu a medrai ddweyd y drefen gydag arddeliad—a'i dweyd hi 24 to the dozen hefyd.

Bu wrthi am ryw ddeg neu ddeuddeg mlynedd mwy neu lai fel ysgolfeistr ac o fwrw golwg dros restr ei ddisgyblion ni chredaf fod galw arno i gywilyddio. Gwnaeth ddiwrnod da o waith fel ysgolfeistr.

Ni wn i gymaint amdano fel pregethwr. Nid am na phregetha o hyd ond am na fedraf i fforddio bod gartref i wrando ar weinidog arall yn pregethu. Carwn yn fynych a byddwn yn ddiau ar fy ennill. Yr wyf i fy hun yn lwcus ohono, ac yn chwareus awgryma ei fod yn gurad i mi yn awr. Y mae'n fwy tebig mai Esgob yw yn gwneud ei *visitation*.

Adwaenaf ef ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Fe'i clywais droion bellach, do, fe'i clywais yn rhy aml, yn ei ffordd dawel ei hun yn ceisio fy nghysuro ar weddi ac mewn pregeth ar hen aelwyd Gwarnant. Fe gofiaf ei destunau a'i bregethau yr adegau hynny ond ni fedrais i byth bregethu ar un o'i destunau. Ni fedrwn rywsut. Yr ym yn wahanol iawn i'n gilydd. Y mae ef yn dawel a minnau'n dymhestlog. Y mae ef yn bwyllog a minnau'n *rash* yn aml. Lawer tro y trois i hen aelwyd Cwmiago gan chwythu bygythion a phenderfynu mynd, ond rywsut fe'm perswadiai i bwyllo. Mynych y mynnai Mrs. Evans i'n gorchymyn ein dau, a ninnau fel dau blentyn da o barch yn addo a chyflawni.

Y mae wedi nghynorthwyo droion a gŵyr fy narllenwyr am ei ysgrifau melys yn yr YMOFYNNYDD. Nid wyf wedi rhoddi i fyny'r ysbryd na chymer at yr YMOFYNNYDD eto. Ni byddai nemor yn wahanol. Dim ond y byddwn i yn was bach iddo ef yn hytrach na'i fod ef yn gurad i mi. Ar hyd y blynyddoedd fe'i cefais yn gyfaill calon. Anodd a fuasai ei ddarlunio. Rhyw feudwy ydyw, tebig i un o'r hen fyneich 'slawer dydd, siriol a charedig o galon ond heb ffug na derbyn wyneb. Ni charwn ei droseddu. Y mae'n rhy dawel a phenderfynol. Ni chredaf y cawn faddeuant *in a hurry*. Ni chredaf ychwaith y'i troseddid *in a hurry*.

Y mae wedi gweinidogaethu am dros ddeugain mlynedd ymhlith ei gydnabod, ac edrychir arno fel ffrind i'r ifanc, ac fel cynghorwr a chyfaill pob oed. Y mae wedi encilio o ofalu am yr eglwysi ond yn barod yn nydd taro i wneud ei ran. Nid gwaith rhwydd yw dewis olynydd iddo ac ni synnaf fod yr eglwysi'n cloffi rhwng dau feddwl, ond gobeithiaf eu gweld yn plygu i arweiniad eu hen gynghorwr pwyllog fel y medr ymhell cyn rhoi y ffarwel olaf deimlo fod yr eglwysi yn cerdded yn gytun i gyfeiriad cyfnod mwy blodeuog ac fod mantell Elias wedi syrthio ar ryw Eliseus. Bydded i Hydref ei oes fod yn dawel a gwridog.

PLESER yw cael parch mewn ardal
Tra fo dyn yn fyw :
Pleser marw yn yr harnais
I weinidog Duw.
Gwag yr aelwyd yng Nghwmiago,
Gwag dy bulpud hên ;
'Gwag fydd holl gynghorau'r enwad
Heb dy air a'th wên.

'Ffarwel heno f'hen weinidog'
A ddwed Capel Groes ;
'Gweithiaist ddiwrnod da'n y winllan,
Treuliaist yma d'oes.
Mae cymylau yn yr wybren,
Teimla'r ardal loes ;
Yn dy galon cedwi'n annwyl
Fynwent Capel Groes.'

Sefi heno ar y dalar
Unig wrthyt hun,
Ac o wrando, dywed ardal
Wrthym,—'Dyma ddyn'.
Cryf a chywir dy gymeriad,
Trwy dy oes yn *drue* ;
Ofer yw cymeradwyaeth
Ond 'Gweinidog Duw'.

Tawel, addfwyn yw dy eiriau,
Ond nid meddal chwaith ;
Yn dy galon mae cadernid
O dan swyn dy iaith :
Caraf i dy wên a'th bregeth,
Gyda'th beswch byrr :
Fel hen sant neu batriarch ydwyt,
Dygaist *aur* a *myrr*.

Am ryw gyfnod hir y plygaist
Y canghennau ir ;
Ti yw'r 'Olaf o'r Barwniaid'
Fu'n goleuo'n tir :
Fe ŵyr Cymru am dy Ysgol,
Codaist wŷr o nôd ;
Derbyn heno ddiolch calon
Disgybl bach dinôd.

'Bendith arnat' a ddwed ardal,
Teg fo hydre d'oes ;
Bodlon ydyw it' dalaru
Eto 'Nghapel Groes :
Gwr bonheddig wyt mewn ardal,
Cristion yn dy fyw :
Ar dy garreg fedd y cerfiaf—
'GWR BONHEDDIG DUW'.

Hanes Iesu i Blant.

GAN N. A N.

PENNOD V.

CANOLFAN bywyd Nazareth oedd y Synagog. Ei hystyr yw 'tŷ cwrdd'. Nid addoldy neu gapel mohoni. Y Deml oedd addoldy y genedl. Yn y synagog dysgid y Gyfraith i'r bobl. Ni cheir sôn amdani nes dod yn ôl o'r gaeth-glud. Yr un un oedd bywyd trefol a chrefyddol y pentref. Yr un rhai oedd henuriaid y dref a'r synagog. Ei swyddogion oedd: 1. YR ARCH SYNAGOGYDD i edrych ar ol y synagog a phenodi rhai i ddarllain a gweddio; 2. DERBYNWYR ELUSEN. Hwy oedd yn derbyn a rhannu'r elusen o ffrwyth y tir neu arian. 3. Y Gweinidog neu'r gwas, i ofalu am yr Ysgrythur; i ddysgu'r plant ac i fflangellu'r bobl ddrwg.

Yr oedd y Synagog yn YSGOLDY, NEUADD Y DREF a THY-CWRDD. Nid oedd ysgolion eraill yn y wlad. Dysgid darllain gartref neu yn y synagog. Ni ddoi ond bechgyn i'r ysgol. Yr ysgolfeistr oedd gweinidog y synagog. Ni wyddom a ddysgid ysgrifennu ynddi er y dywedir i Iesu ysgrifennu â'i fys ar y llawr. Nid llyfrau oedd yno ond 'rhol'. Y mae'r geiriau hyn yn hên. Ystyr *papur* yw '*papyrus*'—yr hesg a ddefnyddid i'w wneud. Golyga *llyfr* risgl coeden a *beibl* y tufewn i risgl (inner rind) y '*papyrus*' neu'r hesg. Nid yw hynyna ond awgrym diddorol o ystyr geiriau.

Y Synagog hefyd oedd 'Neuadd y dref'. Yma ar ddydd Llun a dydd Iau yr eisteddai yr Ynadon Heddwch neu'r 'Saith Henuriad'. Cai'r dyledwr fynd i garchar a fflangellid lleidr neu bregethwr penffordd. 'Llygad am lygad a dant am ddant' oedd y gyfraith. Y prif lys oedd y Sanhedrin yng Nghaersalem.

Ddwywaith y dydd ceid gwasanaeth crefyddol yn y Synagog, yn ogystal ag ar y Sul a'r wyl a dydd marchnad. Yr oedd yn rhaid cael deg yn bresennol. Er bod yn sicr telid deg am fod yno. Yn y synagog y cedwid 'yr arch' neu'r cwpwrdd a ddaliai'r ysgrythurau. Ar war y gwŷr ceid y 'scarff weddi' a 'phylacterau' ar eu talcenni a'u breichiau. Rhyw byrsau lledr wedi'u cylymu am y fraich neu'r talcen oedd y rhai hyn ac ynddynt nifer o adnodau. O deimlo y rhain cofient am weddio a'r adnodau.

Yr oedd gwasanaeth y synagog yn dra thebig i wasanaeth crefyddol heddiw. Dechreuid drwy gydadrodd rhannau o'r Beibl (y Shema—yr adnodau a ddechreu gyda 'Clyw, O Israel'): yna gweddio, darllain rhannau o'r Gyfraith a'r Proffwydi, cyficithu y rhannau hyn o'r Hebraeg i iaith y bobl, esbonio rhain neu bregethu a chyhoeddi'r fendith.

Ni cheid pregethwr neu weinidog tâl yno. Yr oedd y gwasanaeth yn debig i wasanaeth y Crynwyr. Rhaid cofio am yr ysgoldy, neuadd y dref a'r tŷ cwrdd cyn deall ystyr y Synagog ym mywyd y pentref.

Pennod vi.

Yr oedd tair prif wyl gan yr Iddew—Y Pasc, y Pentecost a'r Pebyll. Gwyliau'r cynhaeaf oeddent. Bob yn dipyn cydiodd yr Iddew hwynt ag hanes a chrefydd. Nid oedd Gwyl y Pasc neu'r Bara Croyw ond gwyl dechreu'r cynhaeaf haidd. Cedwid hi tua mis Ebrill. Doid a'r ysgub gyntaf i'r Deml i Dduw. Rywbryd efallai arferai'r Iddew aberthu y cyntafanedig. Ceir sôn am dano yn gadael yr arfer a Duw yn pasio dros (= Passover) cyntafanedig Israel yn yr Aifft. Cedwid hi er cof am y gwaredu o'r Aifft. Awgrymai'r Bara Croyw y brys a'r mynd yno. Lleddid yr aberth yn y deml yn y diwedd gan yr offeiriad a disgwylid pob gwryw i fod yn bresennol ar yr wyl.

Yr ail wyl oedd Gwyl y Pentecost. Ystyr y gair Pentecost yw hanner cant, am ei bod yn cael ei chynnal hanner can niwrnod ar ôl y Pasc neu saith wythnos. Dyna pam y'i gelwid yn wyl yr Wythnosau. Gwyl y cynhaeaf gwenith ydoedd. Cynhygid ysgub y Pasc i ddangos dechreu'r cynhaeaf. Ar Wyl y Pentecost cynhygid dwy dorth i nodi diwedd y cynhaeaf. Adgofid y bobl o ddyfod o'r Aifft a hefyd am roi y Ddeddf i Foses ar fynydd Sinai.

Y drydedd wyl oedd Gwyl y Pebyll. Awgryma'r pebyll y bywyd crwydr a'r byw mewn pebyll yn yr anialwch. Yn ystod yr wyl trigai'r bobl mewn pebyll o ganghennau a dail ar bennau'r tai ac yn y stryd. Gwyl diolch am y cynhaeaf ffrwythau a'r gwin ydoedd. Yr oedd yn wyl gyffredin a phawb yn gydradd. Telid diolch i Dduw am roddion y cynhaeaf.

Dyna dair brif gwyl yr Iddew a phan oedd Iesu yn ddeuddeg oed daeth i waered i Gaersalem. Tair gwaith yr ai'r garafan yno—yn nechreu Ebrill a Mehefin a Hydref. Aent ar asynnod

trwy Samaria. Yr oedd y daith rhyw 80 milltir a threulid tair noson ar yr hewl. Gwelai'r plentyn Iesu hanes ei genedl ar y daith. Medrai'i dad ddweyd wrtho hanes Debora, neu ddangos iddo Dothan lle gwerthwyd Joseph. Gwelai Ebal a Gerizim. Ai heibio Shiloh gan gofio am Samuel. Cofiai ym Methel am freuddwyd Jacob. Ni fedr neb ddisgrifio ei galon ifanc o weld am y tro cyntaf brif dref ei wlad—Caersalem a'r hên deml—cartref crefydd ei dadau.

Y Botwm.

HYD y gwn i ni welais erthygl erioed ar fotwm. Tybed ei fod yn rhy ddauwynebog. O leiaf os ydyw, medrwch weld trwyddo bob cynnig. Y mae'n ddigon defnyddiol a pharchus. Gŵyr pawb hynyna. Ni wn i beth a wnaem hebddo. Credaf y buasai raid mynd yn ôl i wisgo dail ffigys neu grwyn fel ein hynafiaid bore. Ar y llaw arall y mae'n barchus. Dywedir nad oes neb ffyddlonach nag ef mewn capel ac eglwys ar y Sul. Y mae ffyddlondeb felly yn awgrymu rhyw gymaint o barch. Pan fyddai'r Iddew am gadw rhywbeth yn barchus yr oedd yn ei gyflwyno i wasanaeth Duw. Felly ninnau os ydyw'r hanes yn wir. Awgrymir na cheir casgliad mewn capel nac eglwys heb weld ei wyneb ef ar y plât. Fel gweinidog yr wyf wedi cael profiadau lu, ond addefaf na chefais y boen neu'r pleser o groeshawu *botwm* i'r cyfanswm eto. Nid wyf bob amser yn caru lliw a roir yn y casgliad, ond nid yw wedi mynd i fotwm eto. Ni feiaf i mo'r botwm. Yn ei le y mae'n werthfawrocach na dim, ond nid ar y plât casglu y mae'i le. Y mae gan ddyn hefyd ei le, a dyna a fuasai nefoedd cael gan bob un i gadw ei le mewn bywyd.

Er mor ddefnyddiol yw, ni wn i nemor o'i hanes, a sicr fod y gwr a'i darganfu wedi gwneud ei ffortiwn. Nid Cymro mohono ac nid Cymro mo'r botwm. Mynnir mai Ffrancwr bach ydyw wedi gwisgo dillad Cymro am dro—tebig ag y gwna llawer Cymro digon dienaid ar Ddydd Gwyl Dewi. Fe dybia llawer eu hunain yn Gymry o wisgo pais a gwn bach, het silk a sleeves a rhywbeth tebig, ond nid dillad mo'r Cymro. Y mae'r botwm yn fwy o Gymro na hwy am ei fod yn ddigon gwlatgar erbyn hyn.

Dywed dysgedigion nad yw ond hen air Ffrangeg o'r Almaeneg yn golygu '*taro*' (= to butt or strike), ac nid oes gennyf na'r wybodaeth na'r hwyl i'w hamau. Yr awgrym yw, ond odid, rhywbeth i'w daro drwy'r twll neu'r *rhiwllyn*.

Wedi meddwl, beth yw *rhiwllyn?* Ni cheir mohono yn fy ngeiriadur i, a minnau yn ei arfer bob dydd. Y mae'n od.

Y mae yna ambell ddyn y sydd fel botwm. Y mae'n taro neu wthio'i ben i rywle byth a beunydd, a rhaid cael help i ddod oddiyno. Portreada'r gair bach botwm ddyn yn aml iawn. Y mae cymeriadau felly—dynion busneslyd, dynion yn ymyrryd a materion nad oes alw arnynt i'w trin. Mewn ystyr nid oes wahaniaeth i'r botwm p'un ai ar agor neu arall a fydd fy nillad, ond y mae'n cymryd arno i fwrw ei ben i'r rhiwllyn ohono ei hun. Unwaith bum i yn credu mai gwr ifanc oedd y botwm. Cofiaf glywed am hen dramp neu gipsy yn dod i werthu pinau drain o gylch y wlad, ond rywsut gwyddwn ei fod yn hŷn na hynyna. Y mae gan ddyn pan wisgo *frock* neu *evening* coat ddau fotwm arni y bum i yn dyfalu eu hamcan droion. Ni ddywedaf imi ddarganfod eu hamcan heb help. Wedi'i weld y mae'n ddigon clir. Ys llawer dydd yr oedd pobun yn *brochgau* ac yr oedd y got hir yn cael ei niweidio gan flew a chwys y ceffyl. Yr oedd o'r ffordd o leiaf, a throid hi yn ôl gan fotymu y gwaelod bob ochr wrth y ddau fotwm hyn. Y mae'r brochgau wedi mynd allan o'r ffashwn gyda'r moduriau a'r aeroplêns, ac nid oes alw am fotymu fflapiau'r got hir o'r ffordd mwy, ond erys y ddau fotwm fel *remnants* o'r dyddiau gynt i ddweyd wrth oes hwyrach na ŵyr ddim am *frochgau* hanes y dyddiau gynt.

Gyda llaw, y mae'r ddau fotwm ar y got, fel yr *appendix* mewn dyn yn sôn am ffordd arall o fyw. Tybed hefyd fod yr Hollalluog fel ninnau yn ei gadw er mwyn *style*. Y mae gennyf ddau neu dri botwm hefyd ar fy llewys na wn i mo'u gwerth heddiw o leiaf. Sicr iddynt fod yn ddefnyddiol mewn oes a wyddai fwy am dorchi llewys nag a ŵyr yr oes hon.

Sibrydir yn y Senedd y dylasem gynhilo. Y mae'r Grawys wedi dechreu a gofynnir inni aberthu rhywbeth. O chaf bâr o ddillad newydd, yr wyf yn fodlon cynhilo ar fotymau ac aberthu hanner dwsin ar y got yn unig. Pe gwnai pobun hynyna—wel, fe fyddai mwy o Ddiwaith eto.

Rhagor na hynyna fe ddywedir fod botymau mewn bri ym Mhrydain cyn—hanes, ac y'u ceid yn yr Aifft a gwledydd eraill. Fe garwn i wybod am y cyfeiriad cyntaf at fotwm yn Llenyddiaeth Cymru. Ni chofiaf am gyfeiriad yn y Mabinogi na'r Llyfr Du. Yn sicr nid oedd fotwm wedi'i lunio pan lunid geiriau yr hen iaith Gymraeg neu buasai gennym enw Cymraeg arno. Y mae hawl gan y Gymraeg fenthyca. Benthyca ffordd y cerddo a wna'r Saesneg a chredaf i mewn benthyca yn hytrach na gwneud gair y sydd fel doll bren. Gair benthyg yw'r botwm, ac awgrym yn hynyna nad yng Nghymru o leiaf y'i lluniwyd.

Yn fy nydd gwelais lawer o ddynion a phethau benthyg o'u cylch. Y mae hyd yn oed eu hiaith a'u hegwyddorion yn fenthyg. Ni fedrwn i fradu fy iaith na'm hegwyddor heddiw a'u proffesu yfory. Ond medr llawer. Nid yw iaith nac egwyddor ddim ond rhywbeth i ddwyn elw neu fri neu swydd iddynt hwy. Onid ydynt hwy yn y cwestiwn, fe anghofir am yr iaith a'r egwyddor. I mi Cymro unwaith, Cymro am byth am fod cariad at iaith a chenedl a gwlâd wedi'u plethu drwy 'nghalon.

Y mae hynyna ymhell o'r botwm, er nad wyf mor sicr. Y mae ambell *fotwm* yn colli'i afael byth a beunydd, a'r llall yn mynd a'i afael gydag ef. Dyna'r botwm i mi a dyna'r dyn, y dyn sy'n barod i gadw'i afael doed a ddelo. Gwn am ddynion mawr yn nhyb eu hunain y sy'n crio'n groch am wlad ac iaith a chenedl ar Ddydd Gwyl Dewi na rown i *fotwm* am danynt fel Cymry gwir. Y mae'r botwm yn ddefnyddiol ac yn darlunio dyn i drwch y blewyn.

Y mae'r botwm yn barchus am y'i ceir yn y blwch casglu yn Eglwys Dduw. Nid yw'n wiw amau nad yw yno. Ambell dro ar ddamwain. Dro arall am fod gâs gan ddyn beidio rhoi dim pan ddelir y blwch dan ei drwyn. Er dod dros yr anhawster o gadw cyfrif y botymau gyda'r prês awgrymaf i'r eglwysi a flinir gan yr haint, gynllun y ddau blat—y casglwr yn dal y plat gwâg o flaen pob un ac yn galw'r swm wrth arllwys un plat i'r llall. Pe clywai'r troseddwr ei enw yn cael ei alw yn yr Eglwys fel wedi tanysgrifio botwm corn at dreuliau'r eglwys ceid terfyn ar yr haint. O'm rhan fy hun caraf y syniad o roi *botwm* yn y casgliad—psychology y peth. Nid wyf am wylltu neb a gair mawr fel psychology a chofiaf bob tro y gwelaf air mawr hanes hen forwr a phregethwr ar fwrdd llong. Danghosai'r pregethwr ei wybodaeth drwy ofyn i'r hen forwr a wyddai beth oedd psychology a llawer-ology arall. Ni wnai'r morwr ond ysgwyd ei ben a'r pregethwr yn dweyd fod rhan fawr o'i fywyd ar goll. Ymhen tipyn clafychodd yr awyr a chododd y storm. Crynai'r pregethwr a chanfu'r morwr ef. Aeth ato gan ofyn iddo :

'A wyddoch chwi, syr, rywbeth am swimology ?'

'Na wn, wir', meddai'r pregethwr ofnus.

'Y mae'ch bywyd chwi yntau ar goll i gyd', meddai'r morwr gan wenu, 'oherwydd y mae'r llong yn mynd i lawr'.

Nid wyf am wylltu neb a'r gair psychology, ond caraf i ddeall meddwl y neb a deifl fotwm i flwch casglu. Y mae'n awgrymiadol,

i ddechreu, am ei fod yn dangos beth feddylia dyn am ei grefydd. Onid yw yn werth mwy na botwm corn, nid yw'n werth trafferthu rhyw lawer yn ei chylch. Y mae'n awgrym hefyd fod dyn yn tybio fod rhywbeth mewn crefydd neu ni fuasai am i neb dybio ei fod yn rhoi dim. Y mae crefydd yn ormod o *insiwrans* ac esbonia y swm a delir faint y risk. Nid yw y risk am fywyd tragwyddol ond gwerth botwm corn. Caraf i o *insiwro* dalu'r *premium* llawn yn hytrach nag esgus bod wedi fy insiwro fel pan ddaw damwain neu angau y byddaf yn cael a ddisgwyliaf o leiaf.

Ni chredaf felly y dylasem wawdio y neb a rydd fotwm mewn casgliad. Y mae'n dangos fod ei grefydd fel y botwm yn rhywbeth i gydio gafael yn Nuw a byd yr ysbryd. Nid yw'r afael yn sicr iawn. Nid yw yn mynd i ddal llawer o dywydd garw, ond caraf i ddameg y botwm am ei bod yn dweyd mewn iaith a ddeall pob dyn beth a feddylia dyn am ei grefydd ei hun. Onid yw'n werth mwy na botwm corn yn ei feddwl ei hun, na feied myfi am ei gymryd ef a'i grefydd at ei bris ei hun. Y mae'n sicr o fod yn gwybod ac y mae'n amheus gennyf a yw crefydd na dynoliaeth ambell un werth *botwm*.

Pennod o Shiprys.

GELWID yr hen storiawr yng Nghymru yn 'Gyfarwydd' ac am dro ceisiaf innau fod yn gyfarwydd i'm darllenwyr ieuainc. Nid gweithio stori fel y bydd raid imi'n fynych ond gofyn yn ddistaw bach i ambell hen air ddweyd stori. Dywedir fod yr hen gyfarwydd Cymraeg yn mynd o fan i fan gan adrodd ei storiau ond ni chredaf y medrai nebun ohonynt ddweyd cymaint mewn ychydig ag ambell hen air. Maentumir y medr Syr Arthur Keith dynnu darlun o greadur ond i chwi roi darn o asgwrn a berthynai i'r creadur iddo. Ceir yn y graig *ffosils* a medr daearegwr ddweyd hanes cyfnod bore oddiwrth y ffosils hyn y sydd fel adnodau'r gwirionedd yn y graig. Y mae'r un peth yn wir am ambell air. Medr ddweyd stori gyda blâs, a gallwn ninnau ar bwys ei stori atgyfodi hen gyfnod. Heddiw ni chredwn ni nemor yn yr hen wyliau Eglwysig. Bu Cymru gyfan unwaith ym mhyrth yr eglwys ac awgrymir y'i gwelir eto cyn hir yn ôl yno. Y mae'n rhy anodd dweyd, a bydd rhaid cael llawer tro ar fyd cyn y digwydd hynny, oherwydd y mae'n amheus a berthyn y degwm ohonom yn gydwybodol i gapel nac eglwys. Yr oedd Cymru gynt ynghanol yr arogldarth yn troi i'r eglwys oni throe at Dduw a cheir yr awgrym hwn yn yr hen dermau hyn.

Fe gar pobun weld *Carnival*. Ni wyddom ystyr y gair hwyrach ond gwelsom *garnival* lawer tro. Pawb wedi gwisgo mor anhebig ag y gall iddo ef ei hun gan ddarlunio cyfnod neu fudiad neu ddigwyddiad ; dyna yw carnival a phawb yn llawen. Drama fud yn cael ei chwarae o'ch blaen ydyw, y marw wedi atgyfodi a'r cenhedlaethau gynt wedi'u dadrithio. Dyna'r darlun a baentiwn ni o garnival ond y mae ganddo ei stori ei hun. Nid yw ond dau air Lladin wedi mynd yn un—'*Caro* (=cig) a '*val*' (valle=good-bye). Dwed yr anghyfarwydd nad oes fawr o ystyr mewn gair a olyga ffarwelio a chig.

Yr ym eisoes yn y Grawys neu Lent a gŵyr pob un selog—pob aelod o Eglwys Rufain o leiaf na chaniateir bwyta cig yn nyddiau'r Grawys. Y mae'r awgrym yna yn ein dwyn at y cig. Enw yw'r *Carnival* ar y tri diwrnod cyn y Grawys. Gwyddai pob un am yr ympryd a oedd yn ymyl a chredai pob un mewn gwledda a bod yn llawen ar y tri diwrnod hyn cyn dechreu ar gyfnod hir y Grawys. Digon tebig y bwyteid llawer o gig am na cheid cyfleu arno wedyn am ddeugain niwrnod ac edrychid ar y dyddiau hyn—ar y carnival—fel dyddiau llawen a'r bobl yn mwynhau gwledd o gig cyn ffarwelio ag ef am ddeugain niwrnod y Grawys. Ni ŵyr nemor un am ystyr y Grawys erbyn hyn fel nad oes ddisgwyl gwybod ystyr carnival. Er na chedwir mo'r Grawys fel cynt ac ni ffarwelir a chig am ddeugain niwrnod, eto y mae'n werth i ni, o weld y rialtwch a'r carnival, gofio fod iddo ei ystyr gynt pan orfoleddai'r bobl cyn dechreu ar yr ympryd y Grawys.

Rhyw awgrym tebig y sy'n llechu yn yr enw Saesneg 'Pancake Day', ond deuir yn ôl at yr eglwys yn Shrove Tuesday a Mawrth Ynyd.

Ystyr y gair 'Shrove Tuesday' yw'r dydd y gwrandewid cyffes ac y rhoid maddeuant. Carai'r eglwyswyr dybio eu bod yn dechreu'r wyl ympryd a'u pechodau wedi'u maddeu, gan yr eglwys, o leiaf. Nid yw'r gair Cymraeg ond benthyg o'r Lladin—'*initium*' yn golygu 'dechreu'. Nid yw Mawrth Ynyd felly ond y Mawrth ar ddechreu'r Grawys. Dyma'r dydd y paratoid gogyfer a'r Grawys.

Golyga Grawys ddeugain, a daw o'r gair Lladin *Quadragesima* o'r un ystyr. Ryw ddydd caiff yr ieuainc ddiddordeb o geisio dyfalu perthynas y gair Cymraeg *pedwar* a'r gair Lladin *quattuor*.

Gair bach heb ganddo fawr o stori i adrodd wrthym yw Lent. Daw o'r hen air Anglo-Saxon '*lencten*' yn golygu 'gwanwyn'. O sôn am Lent felly ni olygwn ond gwanwyn, a'r unig awgrym i'w cydio ydyw mai yn y Gwanwyn y mae Lent—dyna i gyd.

Y mae'r gair Cymraeg yn fwy darluniadol ac yn cynnwys awgrym diddorol bob cynnig.

O gofio am y gyffes a'r maddeu pechodau ar Shrove Tuesday deuwn i weld ystyr Mercher y Lludw.

Gwyl yr Eglwys ydyw a daw i lawr o'r cyfnod y cyffesid pechodau. Nid oes a fynnwyf a'r arfer o gyffesu pechodau, ond y mae'n haws i ambell un frwydro a themtasiwn o gael dweyd ei ofid wrth arall.

Digon tebig ar Fawrth Ynyd y ceid y llu yn cyffesu'u pechodau a'r offeiriad yn gosod penyd arnynt. Hwyrach fod llawer yn gorfod gwneud cyffes gyhoeddus ac ar fore Mercher y Lludw fe'u gwelid yn dod -yn droednoeth ac yn eu gwisgoedd pennyd gan benlinio ger porth yr eglwys. Fe'u harweinid gan yr offeiriad at yr allor gan roi gwybod iddynt am eu penyd. Fe ysgydwai ludw ar eu pennau tebig ag y gwnae'r Iddew gynt. Dyna'i ffordd ef o ddangos ei alar a'i ofid drwy wisgo sach lian a lludw. Wrth ysgwyd y lludw arnynt dywedai, - 'Cofia, ddyn, mai llwch ydwyt ac i'r llwch y dychweli'.

O'r hen arfer yna o daenu lludw ar bennau y cyffeswyr y ceir y gair Cymraeg Dydd Mercher y Lludw. Ymhen tipyn ymunai cyfeillion a cheraint y cyffeswyr gyda hwy er nad yn euog hwyrach nes cydio o'r awgrym fod pawb mewn angen o edifeirwch a maddeuant. Troid felly ddefod arbennig yn gyffredin i'r holl gynulleidfa.

Wedi deugain niwrnod o ympryd a phenyd fe'u derbynid yn ôl eilwaith i'r eglwys fel pobl lân a'u penyd wedi rhoi '*clean slate*' iddynt. Ar y Sulgwyn- Whit Sunday neu White Sunday- doe pawb yn llawen o gael gwared ar ei faich o bechod neu o leiaf ar ei faich o benyd i'r eglwys ar ddiwedd y Grawys '*oll yn eu gynau gwynion*'. Yr oedd pawb yn wyn oddiwrth eu pechodau ac yn gwisgo dillad gwyn nes gwneud y Sul yn *Sulgwyn*.

Nid yw'n gwyliau ni ond y rhai a gawsom o Eglwys Rhufain; eto y mae gennym ein gwyliau ein hunain megis Calanmai a Chalangaeaf. Dyma ddwy brif wyl y Cymro 'slawer dydd. Gorfoleddid ar Galanmai o gael gwared ar y gaeaf hir ac ar Galangaeaf diffoddid pob tân yn y wlad er ei ail gynneu o dân yr allor. Dyna ffordd ddiddorol o fod yn sicr o gasgliad y weinidogaeth ac am a wn i na byddai'n burion ambell dro i adgyfodi'r hen arfer. Ar Galangaeaf hefyd aberthid llawer o anifeiliaid. Yr oedd prinder bwyd y gaeaf i'r anifeiliaid, ac yr oedd y duwian'n garedig drwy'u tynnu o'u poen.

Ni ddengys yr hen wyliau hyn ddim ond cais yr offeiriad a'r eglwys i gadw gafael ar y bobl. Fe'u twyllwyd dro : ni fedrir mwy : ond yn hen enwau'r gwyliau ceir awgrym o grefydd weledig a defodol a'r bobl syml yn tyrru i'r eglwys yn ofn Duw. Y mae'r ofn wedi cilio a'r bobl hefyd ond nid awgrymaf nad oes yma, er na chedwir na Mawrth Ynyd, na Mercher y Lludw, na'r Grawys fel cynt, ofn Duw, a gobeithiaf i mi ysgrifennu yn ei ofn ef—

'Bennod o Shiprys'.

Priodas.

Sadwrn, y 31ain o Ionawr, yng Nghapel Cribyn, gan D. Evans, y person awdurdodedig, unwyd mewn priodas Thomas Lewis, Fflux, â Martha Davies, Tanrallt. Pob llwyddiant a dedwyddwch a'u dilyno.

Marwgofion.

Ionor 24, yn 26 mlwydd oed yn Iechydfa, Tregaron wedi cystudd caled bu farwWillie Arthur Jones, Tŷ Huw, Pencarreg, Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers tro ond ni freuddwydiodd neb fod y diwedd mor agos. Aeth i Aberystwyth a Thregaron i chwilio am iechyd ond yn ofer. Nid oedd ond poen a nychdod yn ei aros a hyfryd mewn ystyr oedd clywed am iddo gael ei ollwng yn rhydd. Bachgen tawel a siriol ydoedd ond machludodd ei haul yn gynnar. Y dydd Mawrth dilynol claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. James, Rhydybont. Pregethwyd yn y Capel gan y gweinidog a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Eirug Davies, M.A., B.D., Soar. Gadawodd briod ieuanc a merch fach heb fod yn flwydd oed, un brawd a thad i wynebu bywyd hebddo. Nodded y Nef a fo trostynt i gyd.

Ionor 28, yn 78 mlwydd oed, yn ei chwsg bu farw Mrs. Nancy Thomas, Ornant, Gwernllwyn, Llandysul. Yr oedd wedi bod yn achwyn ar droion ond nid awgrymai ei golwg olygus fod y diwedd wrth y drws. Yr oedd wedi ffarwelio a'i phriod a gorwedd ei hunig fab yn naear estron. Yr oedd wedi ei gadael yn unig ac eto nid yn unig. Yr oedd yn gymeriad cadarn a phrydferth ac yn berchen deall a chof rhyfeddol. Yr oedd rhywbeth yn *straight* ynddi. Nid oedd ffug na derbyn-wyneb yn agos ati. Cerddodd ei llwybr yn union a gwen ar ei hwyneb. Fe'i perchid yn yr ardal fel hen wraig o gymeriad anghyffredin. Y mae cymeriadau fel hyn yn brin. Yr oedd ganddi gylch helaeth o berthynasau a ffrindiau. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Gwernllwyn pryd y gwasanaethwyd gan ei gweinidog a'r cyn-weinidog y Parch. D. Jones. Melys iddi oedd cael huno a mynd at ei hanwyliaid.

CHWEFROR 18, Evan Griffiths, Nantygwydde, Llandysul, yn 75 oed. Yr oedd yn ddyn cadarn ac o iechyd da hyd o fewn i ryw saith mlynedd yn ôl pryd y goddiweddwyd ef gan lesgedd. O hynny allan nis gallasai gyflawni dim o waith y fferm, er hynny codai bron yn ddyddiol ac er yr elai allan ar dro treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn y gornel wrth y tân ac nid oedd siaradus a ffraeth fel cynt. Yn ystod tymor ei lesgedd collodd ei briod a merch ag oedd yn annwyl iawn ganddo. Yn naturiol effeithiodd hyn arno. Yr oedd yn rhyfeddol o ddiddig ar ei aelwyd ac yn fawr ei groesaw i ymwelwyr. Bu farw'n sydyn iawn, heb ddioddef dim poen. I'n tyb ni yr oedd yn farwolaeth esmwyth iawn. Yr oedd yn gwmniwr diddan ac yn gymydog da a hoffid ef yn fawr o'r herwydd. Pan yn iach mynychai'r gwasanaethau'n y Bwlch yn gyson ac yr oedd ganddo lais Bass cyfoethog. Claddwyd y Sadwrn dilynol yn mynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Cydymdeimlir yn fawr a'r ddwy ferch a'r mab yn eu galar.

Nodion yr Eglwysi.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Cydnabyddir gyda diolchgarwch y tanysgrifiadau a ganlyn:

	£	s.	c.
Llwynrhydowen ...	1	1	0
Rhyd-y-gwin	0	16	6
Capel-y-bryn	0	15	8
Alltyplaca	0	7	6
Capel-y-groes	0	12	0
Pantydefaid	1	1	3
Graig Trebanos... ...	0	10	0

Gobeithio bydd y tanysgrifiadau eraill i law cyn Cyrddau'r Pasc.

S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

Y GYMANFA GANU.—Dymunir adgofio'r gwahanol Eglwysi am y Rehearsal gyntaf ar y 15 o Fawrth. Nid wyf yn sicr na fyddaf wedi anfon *correspondent* oddiamgylch er gwybod a ydyw pob eglwys wedi dechreu o ddifrif. Onid ydych, ymrowch ar unwaith er cael Cymanfa lwyddiannus yn Aberaeron.

LLWYNRHYDOWEN. — Nawn Gwener, Chwefror 20 cafwyd gwledd o De yn y lle hwn. Rhoddwyd hi gan Miss Jane a Mr. Dan James, Porthyrhyd a Mr. a Mrs. William Thomas, Felin Clettwr, a chwarae teg iddynt rhoisant wledd odidog iawn heb arbed amser na thraul ynglyn â hi. Er na chawsom gwmni William Thomas ar yr achlysur bu'r tri arall wrthi'n ddiwyd drwy'r prynhawn yn croesawu a gweinyddu wrth y byrddau ac yn rhannu aurafalau a melusion rhwng y plant. Daeth tyrfa fawr i'r wledd a chafwyd amser da. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cyngerdd blynyddol yr Ysgol Sul ac yr oedd hwyl ar hwn eto—os dim cafwyd mwy o adrodd a chanu nag arfer—yn enwedig pennillion. Llywyddwyd gan y Parch. John Jenkins (E), Camnant Hall, a chafwyd araeth afaelgar ganddo. Yn ystod yr hwyr cyflwynodd yr Arolygydd, Mr. Tom Davies, Criborfawr, ar ran y gynulleidfa lyfrau i nifer dda o blant am gadw'r Ysgol Sul, tra y rhannodd Misses Mallie Davies, Dewi Villa a Sally Jones, Clettwr Villa, bethau dymunol iawn i'r plant oddiar goeden hardd. Cyflwynodd y gweinidog a Mr. Dewi James Jones ar ran y cyfarfod ddiolch wresog iawn i roddwyr y wledd.

BWLCHYFADFA.—Nos Wener, Chwefror 13 cafwyd 'Noson Lawen' yn y lle hwn. Gofalodd boneddigesau'r gynulleidfa am bethau blasus iawn i'w bwyta ac aeth tair awr heibio'n hwylus. Er fod yr hin dipyn yn aeafol daeth llu ynghyd a chredwn i bawb fwynhau eu hunain.

CWRDD ANRHEGU.—Ar nos Wener, Ionor 21, cynhaliwyd Cwrdd arbennig yng Nghapelygroes er anrhegu y Parch. David Evans. Yr oedd y festri'n llawn. Cadeiriwyd gan y Parch. S. Evans-Bowen ac estynnwyd y gôd iddo gan Mr. Evan Jones, Abernant. Siaradwyd ymhellach gan Mri William Evans, John Evans, Samuel Davies, a holl weinidogion Undodaidd y cylch. Cafwyd Cyfarfod hwylus a rhannodd Mr. Evans wobrau'r Ysgol Sul i nifer o fynychwyr cyson—a deallwn fod y gwobrau yn cael eu rhoi ers blynyddoedd gan Mr. John Evans, Y Baili.

Nôd hyfryd ddaw o'n dwyfron—sydd heno'n
Swydd annwyl i'r galon,
Sef cofio'n syw ein llyw llon
A geir tan wynnaf goron.

Y goron a wnawn garu—yn fwy-fwy
Nef hefyd wna'i dalu;
A'i deg hwyr dan ei Dad cu
Yn llachar fo'n llewyrchu.

CRIBIN BACH.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—TOM BOTTING, Ysw., B.A., Y.H., ABERDAR.

... CYNHELIR ...

CYFARFODYDD Y PASG

Yng Nghapel-y-Cwm

MAWRTH A MERCHER, EBRILL 7 AC 8, 1931.

Trefn y Cyfarfodydd—

NOS FAWRTH am 7 o'r gloch—Gwasanaeth. Pregethwyr: Parch. Dr. W. Griffiths, Aberystwyth a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos.

DYDD MERCHER am 10.30—Pwyllgor y Gymdeithas.

NAWN MERCHER am 2 o'r gloch—Gwasanaeth. Pregethwyr: Y Parch. T. L. Jones, Nottais ac arall.

HWYR MERCHER am 6 o'r gloch—Gwasanaeth. Pregethwyr: Y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr a'r Parch. H. H. Ceiron Jones, B.A., Caerdydd.

Estynnir croeso i bawb.

S. EVANS-BOWEN.

Cynhelir Cyfarfod o Bwyllgor Gweithiol y Gymdeithas yng Ngalltyplaca am 2 o'r gloch dydd Llun, Mawrth 16. Disgwylir dau gynrychiolydd o bob eglwys i'r cwrdd hwn ynghyd a'r gweinidogion.—E. O. JENKINS.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.